| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 17 Medi 2026 |
| **TEITL** | Cyfarfodydd Herio Perfformiad |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad mewnol yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

2. Yn dilyn galwadau gan y Fforwm Craffu ac aelodau'r pwyllgorau craffu mae bwriad i beilota gwadd dau gynrychiolydd o'r pwyllgor craffu gofal i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad mewnol un adran. Bydd disgwyl i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl yn ffurfiol i'w pwyllgor neu'r cyfarfod anffurfiol ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.

3. Y meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor yma yw Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd a Thai ac Eiddo. Dyma'r dyddiadau sydd wedi eu pennu gan yr adrannau ar gyfer y cyfarfodydd herio perfformiad nesaf.

| Meysydd Gwaith | Pryd |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 10 Medi 2026 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 21 Hydref 2026 |
| Tai ac Eiddo | 29 Medi 2026 |

4. Argymhelliad y Fforwm Craffu yw y dylid mynychu cyfarfodydd herio perfformiad Adran Tai ac Eiddo.

5. Bydd disgwyl i'r aelodau fynychu'r cyfarfod, gwrando ar y drafodaeth ac adrodd yn ôl i aelodau'r pwyllgor (gweled atodiad 1) unai yn y cyfarfod ffurfiol neu anffurfiol.

6. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad Adran Tai ac Eiddo.**